


Adnodd yn seiliedig ar bwnc

Trafnidiaeth

Cyfnod Sylfaen



School
Ysgol

Eco-Schools



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndirol

Ar draws y byd, mae pobl yn defnyddio dulliau teithio gwahanol, yn cynnwys cerdded, ceir, beicio, bysiau, tacsis, trafndiaeth gymunedol, trenau, tryciau a faniau, cychod ac awyrennau. Boed i gyrraedd yr ysgol, gwaith neu siopau, mynd ar wyliau neu ymweld â ffrindiau a theulu neu symud nwyddau bob dydd fel bwyd a dillad a nwyddau eraill o un lle i'r llall, rydym yn dibynnu ar drafndiaeth i gadw ein bywydau yn symud. Mae'r seilwaith trafndiaeth yn cynnwys ffyrdd, llwybrau beicio a lonydd beicio, rheilffyrdd a gorsafoedd, porthladdoedd, harbyrau a meysydd awyr y mae angen eu cynnal a'u diweddarau i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'w diben ac effeithlon.



Safbwynt hinsawdd

Mae llosgi tanwydd ffosil i bweru ein cerbydau yn gyfrifol am ryddhau nwyon tŷ gwyrdd sy'n cyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd. Gyda pherchnogaeth ceir yn rhatach a mwy hygyrch erbyn hyn, mae lefel y traffig ar ein ffyrdd wedi cynyddu. Mae trafndiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau carbon yng Nghymru, gyda defnydd preifat o geir yn gyfrifol am fwy na hanner y cyfanswm yma.

Mae allyriadau o gerbydau yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd aer sy'n her wirioneddol i iechyd y boblogaeth, gyda'r bobl fregus mewn cymdeithas ymhlith y rheiny sy'n wynebu'r risg

uchaf o lygredd aer yn niweidio ansawdd bywyd a byrhau rhychwant oes i rai hyd yn oed.

Mae 'Strategaeth Drafndiaeth Newydd ar gyfer Cymru' Llywodraeth Cymru yn ystyried y dyletswyddau ar y Llywodraeth i fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol a'r amgylchedd. Ei gweledigaeth yw darparu 'system drafndiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon,' ac mae'n addo cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ogystal â lleihau'r angen i ddibynnu ar ddefnydd preifat o geir i gyflawni'r targed Cenedl Ddiwasttraff erbyn 2050.

Gêm Bwrdd Teithio Llesol

Cyfnod Sylfaen

Creu eich Gêm Bwrdd Mawr eich hun

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i ddylunio i helpu plant i ddeall y cysylltiad rhwng gwneud dewisiadau am drafnidiaeth sy'n dda i'r amgylchedd a gofalu am eu hiechyd drwy fod yn actif a llosgi eu hegri eu hunain i deithio o le i le lle bo'n bosib yn hytrach na defnyddio dulliau teithio sy'n dibynnu ar losgi tanwydd ffosil a chreu llygredd aer. Byddai hyn yn gweithio orau fel gweithgaredd i grŵp ar y tro a gefnogir gan oedolyn neu i'r bwrdd neu'r trac gael ei osod gan yr athro ymlaen llaw i'r dosbarth cyfan.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Offer addysg gorfforol - e.e. cylchynau, conau neu smotiau rwber, ysgol ystwythder, rhaffau sgipio
- Rhaffau
- Sialciau mawr
- Dis - yn ddelfrydol un sbwng neu wedi chwythu i fyny
- Cardiau rhifau
- Clipfyrdau, pinnau ysgrifennu, pensiliau, papur sgrap



Cam 1

Siaradwch â'r plant am sut maent yn teithio i'r ysgol. Pa fathau o drafnidiaeth a ddefnyddiant at ddibenion eraill? Sut maent yn teithio i'r siopau? Pa fath o drafnidiaeth a ddefnyddiant i deithio i leoedd sydd ymhellach i ffwrdd? A ydynt yn mynd ar wyliau, teithiau dydd neu ymweld â theulu a ffrindiau? Sut maent yn cyrraedd yno?

Eglurwch fod llawer o'n teithiau, yn enwedig rhai byrrach lleol, yn aml yn cael eu gwneud mewn car pan fyddai'n well i'r amgylchedd, a'n hiechyd, pe baem yn defnyddio dulliau teithio mwy llesol megis cerdded, beicio a defnyddio sgwter.

Cam 2

Rhannwch y plant yn grwpiau. Eglurwch eu bod yn mynd i greu eu gêm fwrdd fawr eu hunain ac mai nhw fydd darnau'r gêm. Cydweithiwch i greu trac neu rid yn defnyddio'r offer a ddarperir a rhifo'r lleoedd. Gweler y grid a ddarperir gyda'r adnodd hwn ar gyfer rhai datganiadau a fforffedion gêm i'ch helpu i ddechrau arni. Gofynnwch i'r plant ychwanegu eu hawgrymiadau ar gyfer ymarferion a fforffedion.

Cam 3

Mae plant yn cymryd eu tro i rollo'r dis a symud o amgylch y bwrdd, gan gwblhau'r fforffedion os oes angen.



Cam 4

Anogwch y plant i feddwl am ddatganiadau, gweithredoedd a fforffedion eraill i ychwanegu at y gêm. A all y plant ychwanegu at y grid o syniadau teithio llesol? Trafodwch sut y gallwn ofalu am yr amgylchedd os ydym yn lleihau allyriadau carbon deuocsid drwy gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter.

Gweithgaredd dilynol

Sefydlwch siop atgyweirio beiciau, gorsaf drenau neu fysiau chwarae rôl yn eich ardal y tu allan i ymestyn dysgu'r plant ymhellach.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Meysydd Dysgu a Phrofiad - Mathemateg a Rhifedd

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.





Maes Dysgu a Phrofiad - Iechyd a Llesiant

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae buddion gydol oes i ddatblygu iechyd a lles corfforol.

Camau nesaf a syniadau eraill

- Canwch y gân 'Olwynion ar y Bws' a chrëwch eich penillion newydd eich hunain ar gyfer dulliau teithio eraill
- Gofynnwch i'r plant, staff a rhieni wneud addewid i ddefnyddio dull teithio mwy llesol, yn enwedig ar eu taith i'r ysgol
- Edrychwch ar <https://www.sustrans.org.uk/for-professionals/education/> am syniadau teithio llesol
- Trefnwch gyrsiau diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer eich ysgol
- Mapiwch daith y plant i'r ysgol
- Trefnwch ddiwyddiad wythnos cerdded i'r ysgol
- Gwnewch boster, pamffled neu fideo yn annog teithio llesol i'r ysgol - cerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter

40				
				
31 Rydych yn parcio i ffwrdd o'r ysgol ac yn cerdded gweddill y ffordd - neidiwch ymlaen 3 lle	32	33	34 Rydych yn dewis sgwter gwthio yn hytrach nag un trydan ar gyfer eich pen-blwydd - sgipiwch ymlaen 4 lle	35
30	29 Rydych yn gofyn i'ch mam barcio yn nes at yr ysgol fel nad oes rhaid i chi gerdded yn bell - ewch yn ôl 3 lle	28	27	26
21 	22	23	24 Rydych yn anghofio eich cinio ac yn rhedeg yn ôl i'r tŷ ac mae injan y car yn rhedeg - Rhedwch yn eich unfan am 20 eiliad	25
20	19 Rydych yn teithio ar y bws i gwrdd â ffrind yn hytrach na mynd yn y car - cymerwch dro arall	18	17	16
11	12	13 	14	15 Rydych yn reidio eich beic i'r ysgol yn hytrach na mynd yn y car - Ewch ymlaen 4 lle
10 Rydych yn prynu afalau o Seland Newydd yn hytrach na'r DU Gwnewch 5 naid seren.	9	8 Rydych yn mynd ar wyliau ond yn penderfynu aros yng Nghymru yn hytrach na hedfan dramor, ewch ymlaen 3 lle	7	6
1	2	3	4 Rydych yn deffro'n hwyr ac yn rhedeg yn hwyr felly mae'n rhaid i chi fynd i'r ysgol yn y car yn hytrach na cherdded - Ewch yn ôl 2 le	5



33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13